

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 12 IONAWR 2018

Yn Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd)
bressenol: Cynghorwyr Jacobsen a/ac Caerhirfryn

6 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

7 : CAIS I GYMERADWYO TRWYDDED SAFLE - CHUNKY CHICKEN

Ymgeisydd: Mr Nassar Barnwell

Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan CDF Chicken Ltd mewn perthynas â Chunky Chicken, 230 Heol Y Plwca, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) O safbwynt y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

Darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do)

(2) Oni bai y nodir fel arall gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

O ddydd Llun i ddydd Sul: 09:00 tan 02:00

(3) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

Darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do)

Dydd Llun i Ddydd Sul 23:00 i 02:00

Sylwadau'r Ymgeisydd

Siaradodd Mr Barnwell â'r Is-bwyllgor. Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd Mr Barnwell, wrth iddo gymryd awenau'r busnes ym mis Tachwedd 2017, yn ymwybodol nad oedd trwydded safle gan y safle i drwyddedu gwerthu Lluniaeth hwyr y nos. Ar ôl i Swyddogion Trwyddedu Heddlu De Cymru ymweld â'r safle, roedd Mr Barnwell bellach am gywiro hyn.

Derbyniodd yr ymgeisydd yr holl amodau a nodwyd yn sylwadau Heddlu De Cymru. Dywedodd Mr Barnwell iddo ymgynghori â Heddlu De Cymru a'i fod am fod yn weithredwr da, uchel eu barch.

Gan sôn am y 4 llythyr gwrthwynebu a dderbynnir, dywedodd Mr Barnwell nad oes unrhyw un yn byw yn y fflat uwchben y safle neu yn yr eiddo wrth ochrau'r safle. Holwyd dilysrwydd nifer y sylwadau. Mae'r rhif ffôn wedi'i restru yn annilys ac ar ben

hynny mae un o'r personau wedi'i restru'n gwsmer o'r busnes. Mae'r person hwnnw wedi nodi nad yw'n gwrthwynebu'r cais ac nad yw wedi gwrthwynebu. Nid yw'r gwrthwynebwr arall yn byw yn y cyfeiriad a restrir ond fe yw'r landlord.

Credodd Mr Barnwell ei fod yn gyfeillgar ac y byddai ceisio mynd i'r afael ag unrhyw bryderon gaiff eu dwyn i'w sylw. Gwasanaethir y system echdynnu yn y safle yn flynyddol. Mae ond un achos o drosedd ac anhrefn wedi'i adrodd yn y safle yn y 6 blynedd flaenorol - ac roedd hynny o ganlyniad i rywun yn torri i mewn i'r safle.

Rhestrodd Mr Barnwell y camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r amcanion trwyddedu, gan gynnwys TCC, hyfforddi staff, defnyddio llyfr digwyddiadau a'r mesurau sydd ar waith i ddiogelu'r cyhoedd.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn cymeradwyo'r cais.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 am